YSTADEGAU

# Arolwg heintiadau coronafeirws (COVID-19) (amcangyfrifon positifedd): 14 i 20 Mawrth 2021

Dadansoddiad o gyfran y bobl sy'n profi'n bositif am COVID-19 ar gyfer 14 i 20 Mawrth 2021.

Cyhoeddwyd gyntaf: 26 Mawrth 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 26 Mawrth 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cyfran y bobl yng Nghymru a oedd â COVID-19

Canran y bobl sy'n profi'n bositif yn ôl rhanbarth

Canran y bobl sy'n profi'n bositif yn ôl oedran

Amcangyfrifon ar gyfer achosion yng Nghymru

Amcangyfrifon ar gyfer gwledydd y DU

Diffiniadau

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt


Mae data gwrthgyrff ar gyfer Cymru ymhellach yn cael ei gyhoeddi bob pythefnos mewn datganiad gwahanol.

Mae Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19) yn cael ei gynnal ledled y DU a'i nod yw amcangyfrif:

- faint o bobl sydd â'r haint dros gyfnod penodol (positifedd)
- faint o achosion newydd sy'n digwydd dros gyfnod penodol (digwyddedd)
- faint o bobl sydd â gwrthgyrff i COVID-19

Mae'r arolwg yn helpu i olrhain lefelau heintio a throsglwyddo COVID-19 ymhlith pobl mewn preswylfeydd preifat, sef **poblogaeth gymunedol**.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cyfran y bobl yng Nghymru a oedd â COVID-19

Ar gyfer yr wythnos rhwng 14 i 20 Mawrth 2021, amcangyfrifir bod cyfartaledd o 0.22% o’r **boblogaeth gymunedol** wedi cael COVID-19 (**cyfwng credadwy** o 0.13% i 0.34%).

Mae hyn yn cyfateb i tua 1 o bob 450 o unigolion (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 780 i 1 o bob 290), neu amcangyfrif o 6,700 o bobl i gyd (cyfwng credadwy: 3,900 i 10,400).

Mae canran y bobl sy'n profi'n bositif yng Nghymru yn ymddangos yn lefel yn yr wythnos ddiweddaraf, er bod ansicrwydd mawr.

Gan fod yr amcangyfrifon yn seiliedig ar nifer gymharol isel o brofion positif, mae rhywfaint o ansicrwydd a dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dosbarthiad o achosion cadarnhaol ar **wefan y SYG**.


Sylwer bod mwy o oedi o ran data o'r arolwg heintiadau nag o ffynonellau eraill fel **Iechyd Cyhoeddus Cymru**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 1: Amcangyfrif o'r ganran o boblogaeth Cymru sydd wedi profi'n bositif am y coronafeirws (COVID-19) drwy swabiau trwyn a gwddf ers 7 Chwefror 2021




Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), ONS
Mae'r llinell las a'r graddliwio yn cynrychioli'r duedd wedi'i modelu a'r cyfyngau credadwy yn seiliedig ar y data diweddaraf. Mae'r amcangyfrifon pwyntiau a'r bariau gwallau yn amcangyfrifon swyddogol a gyhoeddwyd ar y pryd. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer dyddiau olaf y gyfres, a ddangosir fel llinellau toredig yn y siart, yn fwy ansicr.

Ers mis Ionawr 2021, rydym wedi adrodd ar ganran y bobl sy'n profi'n bositif yn gydnaws ag amrywiolyn newydd y DU a daeth yn adnabyddedig yng nghanol mis Tachwedd. Oherwydd y gostyngiad parhaus yn y canrannau cyffredinol sy'n profi'n bositif am COVID-19 ledled y DU, rydym wedi dileu siart amrywiolion newydd y DU o'r cyhoeddiad hwn. Bydd y data'n parhau i gael ei gyhoeddi yn y **set ddata ategol ar wefan SYG**.

Bydd tueddiadau mewn amrywiolion gwahanol yn parhau i gael eu monitro a bydd y siart yn cael ei ailgyflwyno os oes amrywiolyn sy'n ymddangos fel pe

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

bai'n effeithio ar y tueddiadau yng nghanran y bobl sy'n profi'n bositif am COVID-19.

Yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 20 Mawrth 2021, mae'r duedd yn y canran o brofion positif sy'n cydweddol â'r amrywiolyn newydd y DU yn ansicr yng Nghymru.

## Canran y bobl sy'n profi'n bositif yn ôl rhanbarth


Darperir amcangyfrifon wedi'u modelu ar gyfer rhanbarthau yng Nghymru. Darperir amcangyfrifon ar gyfer y saith diwrnod hyd at 20 Mawrth 2021 yn seiliedig ar fodelu'r holl cyfnod saith diwrnod.

Ymddengys bod cyfraddau o achosion positif yn aros ar eu huchaf yn y rhanbarth sy'n cwmpasu Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy a Chasnewydd. Er bod y gwahaniaethau rhwng y rhanbarthau yn fach.

Oherwydd meintiau sampl llai, mae mwy o ansicrwydd mewn amcangyfrifon ar gyfer rhanbarthau unigol, fel y dangosir gan gyfyngau credadwy mwy.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 1: Amcangyfrifon o ganran y boblogaeth yng Nghymru sy'n profi'n bositif am y coronafeirws (COVID-19) fesul rhanbarth rhwng 14 i 20 Mawrth 2021






**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), ONS

### Siart 2: Amcangyfrifon o ganran y boblogaeth yng Nghymru sy'n profi'n bositif am y coronafeirws (COVID-19) fesul rhanbarth rhwng 14 i 20 Mawrth 2021





Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), ONS
Mae'r bariau glas yn rhoi amcangyfrifon pwyntiau ac mae'r linellau llorweddol yn dangos y cyfyngau credadwy 95%. Amcangyfrifon wedi'u modelu ar gyfer amcangyfrifon ranbarthol am y saith diwrnod hyd at 20 Mawrth 2021 yn seiliedig ar fodelu'r holl cyfnod saith diwrnod.

# Canran y bobl sy'n profi'n bositif yn ôl oedran

Mae cyfraddau achosion positif yn amrywio yn ôl oedran, ond ymddengys eu bod wedi gostwng ym mhob grŵp oedran yn yr wythnosau diwethaf.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 3a: Amcangyfrifon swyddogol o’r ganran o boblogaeth Cymru sydd wedi profi’n bositif am y coronafeirws (COVID-19) yn ôl oedran ar 9 Chwefror 2021





Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19) , ONS
Mae'r bariau glas yn rhoi pwyntiau amcangyfrif ac mae'r llinellau fertigol yn dangos y cyfyngau credadwy 95%. Amcangyfrifon wedi'u modelu a ddangosir ar gyfer blynyddoedd unigol o oed (2 i 80 oed) ar 9 Chwefror 2021.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 3b: Amcangyfrifon swyddogol o'r ganran o boblogaeth Cymru sydd wedi profi'n bositif am y coronafeirws (COVID-19) yn ôl oedran ar 17 Mawrth 2021




Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), ONS
Mae'r bariau glas yn rhoi pwyntiau amcangyfrif ac mae'r llinellau fertigol yn dangos y cyfyngau credadwy 95%. Amcangyfrifon wedi'u modelu a ddangosir ar gyfer blynyddoedd unigol o oed (2 i 80 oed) ar 17 Mawrth 2021.

Yn y data a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r amcangyfrifon hyn, roedd nifer y bobl a samplwyd yn y gwahanol oedrannau a oedd yn profi'n bositif am COVID-19 yn is o'i gymharu â Chymru yn gyffredinol. Mae hyn yn golygu bod mwy o ansicrwydd i'r amcangyfrifon ar gyfer grwpiau oedran unigol dros y cyfnod hwn, fel y dangosir gan gyfyngau credadwy mwy llydan.

Mae canran y bobl sy'n profi'n bositif am COVID-19 yn ôl blwyddyn unigol o oed ers 7 Chwefror 2021 ar gyfer Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban i'w gael yn **set**


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

# Amcangyfrifon ar gyfer achosion yng Nghymru

Am y tro cyntaf, mae modd inni gyflwyno amcangyfrifon o ddigwyddedd yng Nghymru. Mae digwyddedd heintiau newydd (nifer yr heintiau newydd mewn cyfnod penodol o amser) yn ein helpu i ddeall pa mor gyflym y mae heintiau yn cynyddu yn y boblogaeth. Mae hefyd yn cefnogi'r prif fesur o bositifedd (faint o bobl sy'n profi'n bositif unrhyw bryd, sy'n gysylltiedig â chyffredinrwydd) i roi dealltwriaeth fwy trylwyr o bandemig y coronafeirws (COVID-19).

I wneud cyfrif am y gyfran gynyddol o gyfranogwyr arolwg sy'n darparu swabiau misol (yn hytrach nag wythnosol), mae'r arolwg yn defnyddio dull newydd i amcangyfrif digwyddedd achosion positif, yn seiliedig ar yr amcangyfrif o bositifedd. Mae'r dull newydd yn amcangyfrif am ba mor hir y mae pobl yn profi'n bositif, gan ddefnyddio hyn ochr yn ochr â'r model positifedd i amcangyfrif pryd y digwyddodd heintiau positif newydd.

Y dyddiad cyfeirio a ddefnyddir ar gyfer yr amcangyfrifon swyddogol o ddigwyddedd achosion positif yw 10 diwrnod cyn diwedd yr wythnos gyfeirio positifedd, gan fod dyddiadau diweddarach yn fwy tebygol o newid.

I gael rhagor o wybodaeth am y dull newydd o amcangyfrif digwyddedd, gweler yr erthygl dulliau wedi'u diweddaru ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Yng Nghymru, ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 13 Mawrth 2021, rydym yn amcangyfrif bod 1.29 o achosion newydd o brofion positif o'r coronafeirws (COVID-19) fesul 10,000 o bobl y dydd (cyfwng credadwy o 95%: 0.05 i 2.70).

Mae hyn yn gyfwerth â 390 o achosion positif newydd yng Nghymru y dydd (cyfwng credadwy o 95%: 20 i 820).


Ymddengys bod nifer yr achosion wedi bod yn lefel yn ystod yr wythnosau diwethaf, er bod cyfyngau credadwy yn eang oherwydd maint llai y sampl, a dylid cymryd gofal wrth ddehongli canlyniadau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Pan fydd nifer yr achosion yn isel iawn, efallai na fydd yn bosibl i gynhyrchu amcangyfrif dibynadwy.

Darperir amcangyfrifon dangosol gan fynd yn ôl i 28 Hydref 2020.

**Siart 4: Amcangyfrifon o gyfraddau digwyddedd fesul 10,000 o bobl y dydd ers 28 Hydref 2020**




Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), ONS
Mae'r pwynt amcangyfrif a'r bariau ansicrwydd yn amcangyfrifon dangosol sydd heb eu cyhoeddi (glas golau) a'r amcangyfrifon swyddogol sydd wedi'u cyhoeddi (glas tywyll).

# Amcangyfrifon ar gyfer gwledydd y DU


Yng nghanol yr wythnos ddiweddaraf (14 i 20 Mawrth 2021), roedd y ganran o'r boblogaeth gymunedol yr amcangyfrif bod COVID-19 arnynt ar ei huchaf yn Yr Alban (0.41%) o'i chymharu â gwledydd eraill y DU.

Mae rhywfaint o ansicrwydd o ran yr amcangyfrifon pwynt unigol ar gyfer y


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gwledydd. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer dyddiau diwethaf y gyfres, a ddangosir fel llinellau toredig yn y siart isod, yn fwy ansicr.

## Siart 5: Amcangyfrifon ynghylch canran y boblogarh yng ngwledydd y DU sy'n profi'n bositif am y coronafeirws (COVID-19) ar swab trwyn a gwddf ers 7 Chwefror 2021




Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), ONS
Mae'r llinellau'n cynrychioli'r tueddiad sydd wedi'i fodelu sy'n seiliedig ar y data diweddaraf.
Mae'r amcangyfrifon ar gyfer dyddiau olaf y gyfres, a ddangosir fel llinellau toredig yn y siart, yn fwy ansicr.

## Tabl 1: Cyfraddau positifedd profion ar draws gwledydd y DU ar gyfer yr wythnos o 14 i 20 Mawrth 2021

| | Cyfraddau positifedd (Cyfyngau Credadwy 95%) | | |
|---|---|---|---|
| **Cymru** | 0.22% (0.13 i 0.34) | 1 o bob 450 o bobl (1 o bob 780 i 1 o bob 290) | 6,700 o bobl (3,900 i 10,400) |


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| | Cyfraddau positifedd (Cyfyngau Credadwy 95%) | | |
|---|---|---|---|
| **Lloegr** | 0.30% (0.26 i 0.34) | 1 o bob 340 o bobl (1 o bob 380 i 1 o bob 300) | 162,500 o bobl (143,500 i 183,100) |
| **Yr Alban** | 0.41% (0.30 i 0.54) | 1 o bob 240 o bobl (1 o bob 340 i 1 o bob 180) | 21,500 o bobl (15,600 i 28,500) |
| **Gogledd Iwerddon** | 0.32% (0.17 i 0.52) | 1 o bob 320 o bobl (1 o bob 590 i 1 o bob 190) | 5,800 o bobl (3,100 i 9,500) |

Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), ONS

## Tabl 2: Amcangyfrifon swyddogol o gyfraddau digwyddedd ledled gwledydd y DU, 7 i 13 Mawrth 2021

| | Digwyddedd (Cyfyngau Credadwy 95%) | |
|---|---|---|
| **Cymru** | 1.29 o achosion i bob 10,000 o bobl y dydd (0.05 i 2.70) | 390 o achosion newydd y dydd (20 i 820) |
| **Lloegr** | 2.00 o achosion i bob 10,000 o bobl y dydd (1.47 i 2.45) | 10,900 o achosion newydd y dydd (8,000 i 13,300) |
| **Yr Alban** | 4.13 o achosion i bob 10,000 o bobl y dydd (2.58 i 5.87) | 2,200 o achosion newydd y dydd (1,400 i 3,100) |
| **Gogledd Iwerddon** | 2.36 o achosion i bob 10,000 o bobl y dydd (0.61 i 4.76) | 430 o achosion newydd y dydd (110 i 870) |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), ONS

# Diffiniadau

## Poblogaeth gymunedol

Mae'r Arolwg hwn yn cynnwys pobl sy'n byw mewn aelwydydd preifat, a chyfeirir atynt fel poblogaeth gymunedol. Nid yw'n cynnwys pobl mewn ysbytai, cartrefi gofal a/neu leoliadau sefydliadol eraill.

## Cyfyngau hyder

Mae cyfwng hyder yn dangos y lefel o sicrwydd i amcangyfrif, gan ddangos pa mor gywir yw amcangyfrif sampl. Mae'r cyfyngau hyder o 95% yn cael eu cyfrifo i sicrhau, pe baem yn ailadrodd yr astudiaeth lawer o weithiau, y byddai'r gwir gwerth nad yw'n hysbys rywle rhwng y terfynau hyder isaf ac uchaf, 95% o'r amser. Mae gorgyffwrdd rhwng y cyfryngau hyder yn dangos ei bod yn bosibl nad oes gwahaniaeth gwirioneddol rhwng dau amcangyfrif.

## Cyfwng credadwy

Mae cyfwng credadwy yn dangos y lefel o ansicrwydd i amcangyfrif mewn dadansoddiad data. Mae cyfryngau credadwy o 95% yn cael eu cyfrifo i sicrhau mai'r tebygolrwydd y bydd y gwir gwerth o fewn y cyfrwng yw 95%.

## Digwyddedd

Nifer yr heintiadau newydd dros gyfnod penodol.

## Amcangyfrifon wedi'u seilio ar fodelau ystadegol

Mae amcangyfrifon o bositifedd yn yr arolwg hwn yn seiliedig ar fodelau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ystadegol o’r data sy’n sail iddo. Mae’r model yn llyfnu’r gyfres i ddeall y tueddiad, ac mae’n cael ei adolygu bob wythnos i gynnwys canlyniadau profion newydd.

### Amcangyfrifon pwynt

Mae amcangyfrifon pwynt yn seiliedig ar y tueddiad wedi’i fodelu, ac maent yn adlewyrchu’r pwynt cyfeirio mwyaf cynrychiadol ar gyfer yr wythnos o dan sylw.

### Y gyfradd positifedd

Yr amcangyfrif o’r gyfran o bobl sy’n cael canlyniad positif i brawf am y coronafeirws (COVID-19) ar adeg penodol, gyda symptomau neu hebddynt, yn seiliedig ar swabiau trwyn a gwddf.

## Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Mae canlyniadau’r arolwg wedi’u seilio ar swabiau trwyn a gwddf a ddarparwyd gan y cyfranogwyr. Mae is-grŵp o gyfranogwyr hefyd yn rhoi sampl o waed, wedi’i chymryd gan staff maes wedi eu hyfforddi.

Yn ogystal ag edrych ar **ddigwyddedd** cyffredinol, **positifedd** a lefel gwrthgyrff, defnyddir yr arolwg i edrych ar nodweddion y rhai sy'n profi'n bositif am COVID-19 a gweld i ba raddau y mae pobl sydd wedi’u heintio yn cael symptomau. Mae'r canlyniadau ar gyfer cartrefi preifat yn unig ac nid ydynt yn cynnwys pobl mewn ysbytai, cartrefi gofal neu leoliadau sefydliadol eraill. Cyfeirir at hyn fel **poblogaeth gymunedol**.

Mae’r arolwg yn cynnwys pob gwlad yn y DU, gan alluogi cyfrifo amcangyfrifon ar gyfer pob gwlad yn unigol, ac yn y pen draw ar gyfer y DU gyfan. Dechreuodd y maes gwaith yn Lloegr ar 26 Ebrill 2020. Mae hyn yn golygu bod rhagor o ddata cronnol ar gyfer Lloegr, sy’n galluogi dadansoddiadau mwy manwl ar hyn o bryd. Dechreuodd gwaith maes yng Nghymru ar 29 Mehefin 2020, wedyn yng Ngogledd Iwerddon ar 26 Gorffennaf 2020 ac yn yr Alban ar 21 Medi 2020.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae'n bwysig nodi bod cryn dipyn o ansicrwydd o ran yr amcangyfrifon. Y rheswm am hyn yw, er gwaethaf sampl fawr o gyfranogwyr, fod nifer yr achosion positif a nodwyd yn fach. Rhoddir yr amcangyfrifon gyda **chyfyngau credadwy** neu **cyfyngau hyder** o 95% i ddangos yr ystod y gallwn fod yn hyderus bod y gwir ffigur wedi'i gynnwys ynddi.

Mae'r **amcangyfrifon wedi'u seilio ar fodelu ystadegol**. Mae gwaith modelu'n cael ei wneud o'r newydd bob wythnos gan ddefnyddio'r data am y 6 wythnos ddiwethaf. Mae'r model yn gweithio drwy hwyluso'r gyfres i ddeall y duedd ac mae'n cael ei diwygio bob wythnos i gynnwys canlyniadau profion newydd. Mae hyn yn golygu y gallai'r amcangyfrif diweddaraf am gyfnod cynharach fod yn wahanol i'r amcangyfrif swyddogol a gynhyrchwyd ar y pryd. Dengys Siart 1 y duedd ddiweddaraf wedi'i modelu a'r **amcangyfrifon swyddogol (pwynt)** a gyhoeddwyd ar y pryd.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi **bwletinau ystadegol wythnosol, tablau cyfeirio** ac **erthyglau ystadegol** cyfnodol, gan gynnwys canlyniadau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar ei gwefan. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer **Gogledd Iwerddon** a'r **Alban** yn cael eu cyhoeddi gan y gwahanol weinyddiaethau, yn yr un modd ag yma yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gael ar **wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol**.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym mis Mawrth 2016.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Diweddariad nesaf

1 Ebrill 2021

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Lisa Bloemberg
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
E-bost: **kas.covid19@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 86/2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Arolwg heintiadau coronafeirws (COVID-19) (amcangyfrifon positifedd): 14 i 20 Mawrth 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-positifedd-14-i-20-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.